# Sicrhau bod modd archebu Prydain.



**Deall ein hadnodd archebu TXLoad ar gyfer atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau.**

Mewn partneriaeth â


Cymru Wales

## Platfform digidol sy'n dod a busnesau twristiaeth ynghyd i hybu gwerthiannau.

## Pwy ydym ni.

Mae TXGB (Tourism Exchange GB - Cyfnewidfa Twristiaeth Prydain Fawr) yn eich galluogi i gyrraedd cwsmeriaid newydd, yn ysgogi gwerthiannau ac yn rhoi hwb i'ch gallu i wneud elw. Gan weithio mewn partneriaeth â VisitBritain/VisitEngland i ddwyn busnesau a llwybrau i'r farchnad ynghyd, mae TXGB yn helpu cwsmeriaid i ddarganfod cynhyrchion twristiaeth Prydain.

Mae'n farchnad ddigidol sy'n cysylltu llety, atyniadau, profiadau a theithiau â mwy o gwsmeriaid. Ymunwch un waith i gael mynediad at sawl sianel werthu ac amrywiaeth gynyddol o ddosbarthwyr arbenigol a gwefannau cyrchfannau. Cewch ymuno ag ymgyrchoedd penodol am ddim, ochr yn ochr â brandiau byd-eang – fe wnawn eich helpu i gyrraedd mwy o bobl neu i sefydlu system archebu ar-lein am y tro cyntaf.



TXLoad

# Dim system archebu? Dim problem.

Mae ein hadnodd parod, TXLoad, yn darparu system syml, AM DDIM ar gyfer rheoli archebion ac mae'n berffaith ar gyfer busnesau nad ydynt eisoes yn cymryd archebion ar-lein drwy eu gwefan neu broffiliau cyfryngau cymdeithasol eu hunain – neu rai sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar asiantaethau teithio ar-lein i hybu gwerthiannau.

Gall **TXLoad** eich helpu i gael system archebu am y tro cyntaf ac mae'n eich galluogi i:

- ✓ **Lwytho eich rhestr cynhyrchion**
- ✓ **Rheoli eich dyddiadur yn ganolog**
- ✓ **Rhannu argaeledd a phrisiau cyfredol drwy nifer o sianeli gwerthu**
- ✓ **Ychwanegu system archebu i'ch gwefan ac/neu eich proffiliau cyfryngau cymdeithasol**
- ✓ **Cymryd archebion yn uniongyrchol o'ch rhestriad busnes Google.**

Mae am ddim i'w sefyldu, ac ni fydd y ffioedd yn cael eu cymryd nes eich bod wedi cael y pethau pwysig iawn, sef yr archebion. Yr unig gostau yw'r ffi archebu 2.5 y cant gan TXGB, a chomisiwn unrhyw sianel werthu a ddewiswch.




Cysylltu unwaith

# Cael eich gweld drwy nifer o frandiau byd-eang.

Gallwch gyrraedd cwsmeriaid newydd drwy gael mynediad at ddosbarthwyr arbenigol, asiantaethau teithio ar-lein a brandiau byd-eang, ochr yn ochr â'ch gwefannau cyrchfannau lleol.

O'ch dyddiadur canolog, gallwch reoli ble rydych yn dosbarthu ac yn hyrwyddo eich busnes heb y risg o gael gormod o archebion, rheoli dyraniadau lluosog neu unrhyw waith gweinyddu cymhleth arall.



## Cymryd archebion ar eich gwefan neu broffiliau cyfryngau cymdeithasol eich hun.

Mae TXGB yn darparu eich tudalen archebu personol heb godi ffi ychwanegol. Gallwch ei chysylltu â'ch gwefan neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau eich bod yn weladwy ac yn gwbl gysylltiedig. Gallwch ychwanegu'r canlynol a chael budd ohonynt:

- ✓ **Baneri**
- ✓ **Mapiau lleoliad**
- ✓ **Delweddau cefndir**
- ✓ **Rheolau chwilio**
- ✓ **Orielau delweddau**
- ✓ **Cyfyngiadau archebu**
- ✓ **Dadansoddeg Facebook a Google**
- ✓ **Tudalennau addas i ddyfeisiau symudol**

## Eich holl ddata mewn un lle.

P'un a ydych yn berchen ar atyniad, yn cynnig gweithgareddau awyr agored neu brofiadau, neu'n rhedeg bwyty, mae gan TXLoad bopeth sydd arnoch ei angen. Bydd eich holl ddata archebu a gwerthu ar gael yn rhwydd ar un platfform hwylus wedi'i ddylunio ar eich cyfer chi.



Dechrau arni

# Camau syml i gysylltu.

Ewch i **txgb.co.uk** a gwneud y canlynol

1. Clicio **Get Started** i wneud cais i gysylltu â TXGB.
2. I ddewis system archebu, ewch i ‘**Don’t see your booking system**’ ar y gwaelod a chlicio ar ‘**Use our direct load tool**’.
3. Rhowch eich **manylion banc** fel y gallwn gasglu unrhyw ffioedd sy’n ddyledus i ddosbarthwyr am archebion, i leihau ar y gwaith gweinyddol i chi.
4. Cysylltwch eich **cyfrif Stripe** (neu gallwch gofrestru’n hawdd), i gael taliadau am archebion yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr, drwy ein partneriaid dosbarthu taliadau uniongyrchol, neu drwy eich gwefan neu eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich hun. Gellir ychwanegu Stripe yn nes ymlaen os nad yw wedi’i sefydlu gennych.
5. Bydd eich **enw defnyddiwr** a **chyfrinair** i gael mynediad at eich dangosfwrdd TXGB yn cael eu hanfon atoch drwy e-bost, ynghyd â neges groeso gan y Tîm Cymorth i’ch helpu chi i ddechrau sefydlu TXLoad.
6. O’ch dangosfwrdd, gallwch ddechrau dewis y sianeli gwerthu rydych yn dymuno rhannu argaeledd a phrisiau cyfredol gyda nhw. Ewch i’r tab **‘My Channels’** a chwilio am sianel benodol neu gael golwg ar y cyfan. Yna dewiswch, **‘opt in’** ar y sianeli rydych am eu dewis.



**Dyna ni!**

Byddwn mewn cysylltiad yn fuan i’ch helpu gyda’r camau nesaf.

## Desg Gymorth

Rydym ar gael i helpu unrhyw fusnes twristiaeth i gysylltu â TXGB.

**0330 223 5050**
**support@txgb.co.uk**

Copyright 2022